Y cwymp eira

(meddwl am eraill / cydweithio)

Un naw pedwar saith oedd y flwyddyn. Daeth newyddion argyfwng ar Radio y Swistir. “Mae newyddion yn ein cyrraedd bod cwympfeydd eira ar y ffordd. Rydym yn awgrymu’n gryf y dylai pobl y pentref adael eu cartrefi ar frys.”

Pan glywodd Hans Altschwank y newyddion penderfynodd nad oedd am symud cam heb yn gyntaf geisio cysylltu â grŵp o fechgyn o ysgol gyfagos oedd yn sgïo ar y mynydd. Gwyddai, fel prifathro’r ysgol leol, na fyddai’r bechgyn wedi clywed y newyddion gan eu bod yn sgïo yn ystod y dydd.

“Tyrd,” meddai wrth ei fab pymtheg oed. “Mae’n rhaid i ni fynd i chwilio am y bechgyn yna i dorri’r newydd iddyn nhw. Ac i ffwrdd a nhw i fyny’r mynydd. Fel roedden nhw’n cyrraedd roedd y bechgyn, gyda’u hyfforddwyr, ar fin cychwyn am y mynydd.

“Gwrandewch,” meddai Hans yn ei lais prifathro, “fedrwch chi ddim mynd i sgïo heddiw. Mae’r newyddion yn dweud fod yna gwympfeydd eira ar y ffordd, felly mae’n well i chi fynd i lawr y mynydd i chwilio am loches.”

Edrychai’r bechgyn yn ofnus iawn. “Dowch,” meddai Hans, “does gynnon ni ddim amser i oedi o gwbl.”

Dyna lle roedd Hans a’i fab a’r bechgyn a’u hyfforddwyr yn ei gwneud hi i lawr y mynydd. Ond yn sydyn daeth sŵn rhuthr a’r eira’n dechrau symud. Roedd cwymp eira ar ei ffordd!

“Ceisiwch symud o’r naill ochr i’r llall i geisio ei osgoi,” gwaeddai Hans. Llwyddodd pob un heblaw am un bachgen oedd wedi ei ddal yn y cwymp.

Gwaeddodd un o’r bechgyn, “Rwy’n gwybod ble mae o. Mi geisia i gadw llygad ar y llecyn yna.” Cadwodd ei lygaid ar yr union lecyn. Erbyn hyn roedd y cwymp eira wedi mynd heibio. Daeth y bechgyn at ei gilydd i’r union fan lle roedd y bachgen wedi cwympo. Doedd dim golwg ohono’n unman. Dyna lle roedden nhw’n tyrchu a thyrchu. Yn sydyn daeth llaw i’r golwg a dechreuodd y bysedd symud. Roedd o’n fyw! Ymhen dim roedden nhw wedi tynnu’r bachgen i ddiogelwch. Dyma gychwyn eto i lawr y mynydd. Ond daeth mwy o sŵn. Roedd yna gwymp eira arall ar ei ffordd. Dyma’r bechgyn yn cymryd y wib i lawr y mynydd ond roedd dau ohonyn nhw’n sownd. Aeth yr ail gwymp eira drosodd a

thynnwyd y ddau fachgen o'r eira. Ac i lawr â nhw i'r pentref islaw. Roedden nhw wedi blino'n lân. Aethant i gysgu'n sownd. Ond doedd y gwaetha ddim drosodd!

Y noson honno, a thrigolion y pentref yn cysgu'n sownd, daeth trydydd cwymp eira a gorchuddio'r tai i gyd. Bu'n rhaid galw milwyr o bentref gerllaw i helpu. Bu'n waith anodd iawn. Erbyn diwedd y dydd roedd pob un o'r pentrefwyr yn saff ond roedd tri ar goll – Hans, ei wraig a'i fab. Pan glywodd y bechgyn fu ar y mynydd fod y prifathro a'i deulu ar goll roedden nhw'n benderfynol o wneud rhywbeth i geisio achub y teulu. Bu'r pentrefwyr, y bechgyn a'r milwyr wrthi'n ddygn yn tyrchu a thyrchu. Ymhen 57 awr fe ddaethon nhw o hyd i Hans a'i deulu – yn fyw ac yn iach. Cyn mynd i'r pentref cyfagos arhosodd y prifathro i ddiolch iddyn nhw am achub ei fywyd a'i deulu.

Adnod: "Codaf fy llygaid tua'r mynyddoedd; o ble daw cymorth i mi?" Salm 121:1

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am bobl ddewr ymhob oes. Amen.

Trafod:

- Sut fyddech chi'n disgrifio dewrder y prifathro Hans?
- Ceisiwch fwy o wybodaeth am bobl sy'n mentro eu bywydau i achub eraill, e.e. y bad achub, achub mynydd.